

Ffynonellau posibl o ganllawiau ar gyfer barn a chaniatâd AEA ar gyfer cynlluniau Creu Coetir Glastir

Mae pob cynllun Creu Coetir Glastir angen barn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) i asesu a oes angen caniatâd ar gyfer y cynnig plannu newydd. Os oes angen caniatâd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n rhaid i ymgeisydd baratoi Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau am wybodaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi barn AEA yn enwedig ar safleoedd plannu newydd mwy ag amrywiaeth o gyfyngiadau a sensitifrwydd. Nid yw'n rhestr hollgynhwysol, ac mewn rhai achosion efallai y bydd angen arolygon i ddilysu neu gadarnhau gwybodaeth, ond mae'n darparu ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i ymgeiswyr i helpu â phenderfynu.

Prif ffynhonnell canllawiau digidol ar gyfer barn AEA a datganiad ar gyfer cynllun CCG yw map cyfleoedd Creu Coetir Glastir Lle <http://lle.gov.wales/apps/woodlandopportunities>

| Categori AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|---|--|---|--|--|
| <p>Dynodiadau Asesu a fydd plannu newydd yn effeithio ar ddynodiad (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA))</p> | <p><u>Coedwigoedd a Bioamrywiaeth</u>: Cyfreithiol 1; Ymarfer Da Coedwig 4; Canllawiau UKFS 4,5; <u>Coedwigoedd a Dŵr</u>: Cyfreithiol 12; <u>Coedwigoedd a Newid yn yr Hinsawdd</u>: Canllawiau UKFS 5; <u>Coedwigoedd a Phridd</u>: Canllawiau UKFS 24</p> | <p>SoDdGA yw'r safleoedd mwyaf pwysig i dreftadaeth naturiol Cymru ac maent yn cynnwys safleoedd a ddiogelir gan gyfraith Ewropeaidd a Rhyngwladol (SACs, SPAs)</p> | <p>Gwybodaeth am ddynodiadau yn cynnwys manylion dyfyniadau SoDdGA a chanllawiau ar gyfer perchnogion a deiliaid SoDdGA mewn perthynas â chaniatâd i gyflawni gweithredoedd mewn SoDdGA:-</p> | <p>Sicrhau bod ymgynghori wedi digwydd â thîm cadwraeth rhanbarthol CNC os yw cynllun plannu newydd mewn safle dynodedig.</p> |
| <p>Blaenoriaeth Tystiolaeth ni fydd unrhyw blannu newydd ar gynefinoedd â blaenoriaeth</p> | <p><u>Coedwigoedd a Bioamrywiaeth</u>: Cyfreithiol 1; Ymarfer Da Coedwig 4; Canllawiau UKFS 4; <u>Coedwigoedd ac Amgylchedd</u> <u>Hanesyddol</u>: Ymarfer Da Coedwig 2,4 <u>Coedwigoedd a Dŵr</u>: Cyfreithiol 12</p> | <p>Mae cynefinoedd â blaenoriaeth UK BAP yn cwmpasu amrywiaeth eang o fathau cynefin lled-naturiol ac ystyrir y rhain fel y rhai dan y bygythiad mwyaf ac mae angen gweithredu cadwraeth arnynt o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UK BAP).</p> | <p>Gwybodaeth am gynefinoedd â blaenoriaeth http://jncc.defra.gov.uk Canllawiau am gynefinoedd sensitif CNC a thystiolaeth ffotograffig Mae cynefinoedd â blaenoriaeth wedi'u nodi fel cynefinoedd sensitif CNC ar fap cyfleoedd coetir CCG Lle</p> | <p>Darparu ffotograffau digonol wedi'u geo-tagio i ddangos nad yw safle plannu newydd yn gynefin â blaenoriaeth Lle ceir cynefinoedd â blaenoriaeth yn enwedig ar safleoedd plannu mwy, cymhleth, mae'n ddoeth cael ecolegydd proffesiynol i ymgymryd ag arolwg</p> |

| Categori AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|---|--|---|--|---|
| Ffawna (Rhywogaeth â blaenoriaeth) Tystiolaeth nad yw plannu newydd yn effeithio ar rywogaethau â blaenoriaeth a'u cynefinoedd. Dylid rhoi sylw dyledus i unrhyw rywogaeth a drefnwyd gan fod eu aflonydd neu lladd yn warhardd gan cyfraith. | <u>Coedwigoedd a Bioamrywiaeth:</u> Cyfreithiol 1; Ymarfer Da Coedwig 3,4; Canllawiau UKFS 4; <u>Coedwigoedd a Dŵr</u> Cyfreithiol 12 | Mae madfallod dŵr cribog (GCN) yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop ac mae dinistrio naill ai unigolion neu eu cynefin yn drosedd | Canllawiau am GCN Mae cofnodion GCN a 500m wedi'u dangos ar fap cyfleoedd coetir CCG Lle | Ymgynghori â thîm cadwraeth rhanbarthol CNC i sicrhau nad yw'r plannu newydd yn effeithio ar gynefin GCN |
| | | Mae brithion perlog yn rhywogaeth â blaenoriaeth (Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 / Deddf yr Amgylchedd 2016). Byddai plannu newydd ar safleoedd rhedyn a nodwyd yn gallu dinistrio eu niferoedd | Safleoedd rhedyn a nodwyd gan <i>Butterfly Conservation</i> sydd wedi'u nodi ar fap cyfleoedd coetir CCG Lle yw'r cynefinoedd hysbys. | Dim plannu ar safleoedd rhedyn a nodwyd gan <i>Butterfly Conservation</i> |
| | | Mae Cwtiaid Aur, Brain Coesgoch, Cornicyllod, a Gylfiniriai yn rhywogaethau o bryder cadwraeth penodol y byddai creu coetir yn arbennig o niweidiol i'w cynefin bwydo a/neu fridio. | www.rspb.org.uk Cofnodion adar â blaenoriaeth a llain glustogi 1km ar fap cyfleoedd coetir CCG Lle | Os yw'r plannu newydd mewn ardal adar â blaenoriaeth, ymgynghori â'r RSPB i sicrhau na fydd plannu newydd yn effeithio ar gynefin adar â blaenoriaeth. Ar gyfer safleoedd mwy, efallai y bydd angen arolwg adar bridio. |
| | | Mae gwiwerod coch a llygod dŵr yn rhywogaethau a warchodir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) | Canllawiau am wiwerod coch a llygod dŵr Mae ardaloedd wiwerod coch/llygod dŵr wedi'u dangos ar fap Creu Coetir Glastir Lle | Tystiolaeth bod canllawiau wiwerod coch/llygod dŵr wedi cael eu dilyn |

| Categori AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth? | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|---|---|--|-------------------------------------|---|
| Priddoedd Tystiolaeth nad oes unrhyw blannu ar safleoedd â mawn dros 50cm o ddyfnder | <u>Coedwigoedd a Bioamrywiaeth:</u> Cyfreithiol 1; Ymarfer Da Coedwig 4; Canllawiau UKFS 4,5; <u>Coedwigoedd a Dŵr</u> Cyfreithiol 12; <u>Coedwigoedd a Newid yn yr Hinsawdd</u> Canllawiau UKFS 5; <u>Coedwigoedd a Phridd</u> 24 | Arolwg mawndiroedd iseldir Cymru cam 2 (2004); Asesiad o fawn dwfn – Comisiwn Coedwigaeth Cymru (2012) | Canllawiau ar fawn dwfn - | Ffotograffau digonol wedi'u geo-tagio drwy gydol y plannu newydd i ddangos pyllau pridd â llai na 50cm o fawn dwfn Lle ceir mawn dwfn ledled safle plannu newydd, mae'n ddoeth cael ecolegydd i ymgymryd ag arolwg i eithrio'r ardaloedd hynny o'r plannu newydd. |
| Dŵr Sicrhau bod plannu newydd yn unol â chanllawiau sensitif i asid (AS) ac nid oes unrhyw blannu o fewn 7m i amddiffynfeydd rhag llifogydd | <u>Coedwigoedd a Dŵr:</u> Cyfreithiol 10; Ymarfer Da Coedwig 11; Canllawiau UKFS 1,2,6 | Dalgylchoedd dŵr mewn perygl ac sy'n methu wedi nodi yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Canllawiau dalgylch sensitif i asid | Sicrhau bod plannu newydd yn dilyn canllawiau AS os yw dalgylch wedi'i goedwigo dros 30% mewn dalgylch "mewn perygl" neu "sy'n methu". Os yw plannu newydd dros drothwy mewn dalgylch AS sy'n methu, mae angen Dadansoddiad Llwyth Critigol (CLA) i ddangos a yw'r dalgylch yn gallu clustogi risg asideiddio cynyddol. Plannu llai na 10% o wern mewn llain clustogi glannau afon o ddalgylch AS. |
| | | Sicrhau mynediad drwy gydol y flwyddyn at amddiffynfeydd rhag llifogydd ar gyfer cynnal a chadw | | Dim plannu o fewn 7m i amddiffynfeydd rhag llifogydd (wedi'u nodi'n biws ar y map llifogydd) |

| Categori AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth? | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|--|--|--|---|--|
| Archaeoleg Sicrhau bod plannu newydd yn dilyn canllawiau archeolegol | <u>Coedwigoedd ac Amgylchedd Hanesyddol</u> Ymarfer Da Coedwig 1; Ymarfer Da Coedwig 4; Canllawiau UKFS 10, 11, 20,27 | Henebion Rhestredig (SAMs) - Safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol | Cysylltu ag Arolygwyr Rhanbarthol CADW http://cadw.gov.wales | Mae angen caniatâd CADW os yw'r safle plannu newydd o fewn 100m llain clustogi o SAM |
| | | Parciau a Gerddi hanesyddol cofrestredig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol | http://cadw.gov.wales | Ymgynghori â swyddog Parciau a Gerddi CADW bod y plannu newydd o fewn Parciau a Gerddi Cofrestredig |
| | | Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO – safleoedd a ddynodwyd oherwydd gwerth cyffredinol eithriadol (safleoedd UNESCO yng Nghymru - cestyll Edward 1, tirwedd Blaenafon a Dyfrbont Pontcysyllte) | http://www.visitwales.com/things-to-do/attractions/castles-heritage/world-heritage-sites | Ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol mewn safle treftadaeth y byd UNESCO |
| | <u>Coedwigoedd ac Amgylchedd Hanesyddol</u> Ymarfer Da Coedwig 1-4; Canllawiau UKFS 10; <u>Coedwigoedd a Thirwedd</u> : Ymarfer Da Coedwig 2; Canllawiau UKFS 24 | Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol – pob agwedd ar yr amgylchedd sy'n deillio o ryngweithio lleoedd a phobl dros amser ee olion adeiladau, olion diwydiannol, gwrthgloddiau Tirweddau Hanesyddol - dynodiadau'n adlewyrchu rhyngweithio dynol mewn tirwedd | Archwilio (gwefan Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol chwiliadwy Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru) http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/arch Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru Gwynedd (GAT) Dyfed (DAT) Clwyd-Powys (CPAT) Gwent Morgannwg (GGAT) | Ymateb ymgynghoriad oddi wrth Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Bydd tîm NRW yn asesu'n annibynnol bod yr ymgynghoriad hwn yn unol â UKFS |

| Dynodiad AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth? | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|--|---|---|--|--|
| <p>Tirwedd Sicrhau bod y plannu newydd yn ffitio yn y dirwedd amgylchynol</p> | <p><u>Coedwigoedd a Thirwedd</u> Ymarfer Da Coedwig 1-2; <u>Coedwigoedd a Thirwedd</u> Canllawiau UKFS: 3, 24</p> | <p>Mae Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd helaeth sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu harddwch naturiol a'r cyfleoedd hamdden maent yn cynnig. Ceir 3 Parc Cenedlaethol yng Nghymru – Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.</p> <p>Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) - ardaloedd o ansawdd golygfaol uchel ag amddiffyniad statudol i gadw a gwella harddwch naturiol y dirwedd. Ceir 5 AHNE yng Nghymru - Ynys Môn, Gŵyr, Llŷn, Bryniau Clwyd, Dyffryn Gwy</p> | <p>Canllawiau Coedwigoedd a Thirwedd UKFS http://www.forestry.gov.uk/ukfs/landscape</p> <p>Mae LANDMAP yn darparu gwybodaeth am nodweddion y dirwedd</p> | <p>Ymgynghori â Pharciau Cenedlaethol ac AHNE dros 2 hectar</p> <p>Sicrhau bod y plannu newydd yn ffitio yn y dirwedd amgylchynol trwy ddilyn canllawiau tirwedd yn Coedwigoedd a Thirwedd UKFS yn enwedig yn achos safleoedd plannu newydd mwy.</p> |
| | | <p>RIGS (Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth) - Lleoedd mwyaf pwysig ar gyfer daeareg, geomorffoleg a phriddoedd y tu allan i SoDdGA</p> | <p>www.geoconservationuk.org.uk</p> | <p>Ymateb ymgynghori oddi wrth ddaearegwr NRW</p> |

| Dynodiad AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth? | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|--|--|---|---|--|
| <p>Mynediad Sicrhau bod yw hawliau tramwy a llwybrau march wedi'u rhwystro a bod canllawiau mynediad agored/tir comin yn cael eu dilyn.</p> | <p><u>Coedwigoedd a Phobl</u>: Cyfreithiol 1,2</p> | <p>Y rhan fwyaf o hawliau tramwy a llwybrau march sydd wedi'u dangos ar fapiau'r Arolwg Ordnans. Bydd gan yr awdurdod lleol "Fap Diffiniol" os oes unrhyw ansicrwydd.</p> | <p>Cydymffurfio â chyfrifoldebau tiffeddianwyr Hawliau Tramwy fel y'i nodwyd yn https://www.gov.uk/guidance/public-rights-of-way-landowner-responsibilities</p> <p>Ymgynghori â gwefan yr awdurdod lleol i gael gwybodaeth mewn perthynas â hawliau tramwy lle mae plannu newydd wedi'i leoli</p> | <p>Darparu datganiad ni fydd hawliau tramwy a llwybrau march trwy ardal blannu newydd yn cael eu rhwystro</p> <p>Mae'n rhaid sicrhau caniatâd yr Awdurdod Lleol cyn gosod gatiau neu gamfeydd ar draws lwybrau troed neu lwybrau march sy'n hawliau tramwy; mae'n rhaid i'r tiffeddiannwr gadw'r rhain mewn cyflwr diogel.</p> |
| | | <p>Tir mynediad agored (Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy)</p> | <p>Canllawiau hawliau tramwy</p> | <p>Tystiolaeth y bydd mynediad cyfrifol yn parhau i gael ei ganiatáu ar dir mynediad a fapiwyd oni bai bod cyfarwyddyd i gyfyngu neu wahardd mynediad</p> |
| | | <p>Tir comin sy'n agored i un neu fwy o borwyr</p> | <p>Canllawiau tir comin</p> | <p>Pob tir comin Caniatâd ysgrifenedig y deiliad ar gyfer y plannu newydd; Caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y ffensys</p> |

| Dynodiad AEA | Cyfeirnod UKFS | Beth yw'r wybodaeth? | Ble i ddod o hyd i ganllawiau | Gwybodaeth ofynnol ar gyfer barn AEA |
|---|---|---|--|---|
| <p>Cymuned Sicrhau bod pobl sydd â buddiant adnabyddus mewn safle plannu newydd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad</p> | <p><u>Ymarfer Cyffredinol Coedwigaeth</u> Cyfreithiol 6; <u>Coedwigoedd a Phobl</u>: Ymarfer Coedwig 7; Ymarfer Coedwig 1-4</p> | <p>Fel rhan o ddatblygu cynllun plannu newydd, dylid ystyried cynnwys cymuned sydd â buddiant adnabyddus yn y cynnig neu ei ganlyniad</p> | <p>Coedwigoedd a Phobl UKFS</p> <p>Ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol mewn Coedwigaeth a Pharatoi Datganiad o'r Effaith Amgylcheddol</p> | <p>Lle mae plannu newydd yn effeithio ar gymuned, mae angen tystiolaeth o ymgynghori â'r cyngor cymuned ac, os bydd angen, ymgysylltu pellach â'r gymuned</p> |